# Amcangyfrif 2024/25

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Yn unol â pharagraff 9(2) Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf) mae'n ofynnol i mi gyflwyno cyllideb refeniw flynyddol i Lywodraeth Cymru (yr Amcangyfrif).

1.2 Mae'r Amcangyfrif hwn yn cael ei ategu gan y gyllideb ddrafft a gyflwynais i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2023, a oedd yn rhoi adroddiad manwl o'r pwysau costau yn fy nghyllideb. Mae hefyd yn cael ei ategu gan Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022-23, sy'n dangos y gwaith rwyf yn ei wneud i sicrhau bod Cymru'n wlad oed-gyfeillgar, lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, hawliau'n cael eu cynnal, a neb yn cael ei adael ar ôl.

1.3 Yn y ddogfen hon, rwyf wedi dangos y pwysau cyllidebol parhaus y mae fy sefydliad yn ei wynebu, ac rwyf yn gofyn i gyfanswm cyllideb 2024/25 y Comisiynydd Pobl Hŷn gynyddu 2.6%, neu £45,000 i £1,748,000.

## 2 Y sefyllfa ariannol bresennol a thystiolaeth o arbed costau

2.1 Oherwydd rheolaeth ariannol ddarbodus, nid wyf yn gofyn am gynnydd termau real i'r gyllideb, ac rwyf wedi sicrhau bod y cynnydd yn y cais ar gyfer 2024/25 yn llai na £50,000.

2.2 Bydd effaith gronnol y pwysau unigol ar gyllideb 2024/2025 yn cael effaith sylweddol ar y sefydliad. Byddai peidio â chael cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael effaith negyddol ar drefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn y sefydliad, er enghraifft, dargyfeirio adnoddau o seibergadernid ac ennill achrediad IASME Lefel 2 (Sicrwydd Gwybodaeth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig) i rannau eraill o'r sefydliad sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella bywydau pobl hŷn. Mae angen dargyfeirio'r adnoddau hyn er mwyn gallu parhau i ddarparu ar gyfer pobl hŷn, a byddai'n cynyddu cydymffurfiad cyffredinol y sefydliad a'r risgiau rheoleiddiol.

2.3 Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, rwyf wedi sicrhau bod y sefydliad wedi gallu ymdopi â chostau cynyddol drwy reolaeth ariannol ddarbodus, penderfyniadau doeth, gwneud y gorau o werth am arian drwy gaffael effeithiol, a gwneud y defnydd gorau posibl o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Hefyd, er mwyn lleihau costau cyflogaeth, rwyf yn cael gweithwyr allanol i reoli fy seilwaith a rhwydwaith TG.

2.4 Yn ogystal, rwyf yn adolygu ac yn ystyried strwythur fy sefydliad yn barhaus cyn recriwtio ar gyfer swyddi gwag ac, yn ddiweddar, rwyf wedi arbed £28,000 yn erbyn costau a gyllidebwyd am fod dwy swydd a oedd yn arfer bod yn swyddi amser llawn wedi'u penodi ar sail contractau 0.8 FTE. Mae'r dewisiadau recriwtio hyn wedi sicrhau y gallaf amsugno effaith y cynnydd yng nghostau cyfraniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r dyfarniad costau byw o 5% ar gyfer 2023/24, a hynny heb orfod cynyddu'r cais am gyllid ar gyfer 2024/25 a gyflwynwyd ym mis Awst. Yn wir, o fewn yr Amcangyfrif hwn, rwyf yn gofyn am £5,000 yn llai ar gyfer 2024/25. Er gwybodaeth, ni ellir sicrhau arbedion fel y rhain bob amser.

2.5 Ym mis Mawrth 2023, symudais i'r swyddfa a lleihau fy nghostau llety 70%, neu £100,000. Mae'r arbedion sylweddol hyn wedi fy ngalluogi i ailgyfeirio'r gyllideb i rannau eraill o'r sefydliad, ac wedi helpu i sicrhau fy mod wedi gallu cyfateb i wobrau costau byw Llywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chyflawni gwaith dylanwadol ar gyllideb o £1,703,000.

## 3 Cais am gyllideb ar gyfer 2024/25

3.1 Mae'r cais hwn am gyllid yn dangos nad yw'n gynaliadwy mwyach i'm cyllid aros ar ei lefel bresennol. Rwyf yn rhagweld diffyg o £45,000 ar gyfer 2024/25, a fydd yn cynyddu i £138,000 erbyn 2026/27. Mae'r tabl isod yn dangos bod y twf hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gostau cyflogaeth, a hynny oherwydd y cynnydd a ragwelir yn y dyfodol ar gyfer dyfarniadau costau byw a chynyddrannau mewn contractau, yn hytrach na chynnydd yn nifer y gweithwyr neu gynnydd yng nghostau cyflog canolrifol y sefydliad. Mae fy adroddiadau blynyddol archwiliedig yn dangos bod y cyflog canolrifol wedi cynyddu oherwydd y dyfarniadau costau byw, yn hytrach na newid yn strwythur y sefydliad. Er gwybodaeth, 20.29 yw WTE fy swyddfa ar hyn o bryd; 21 yw'r nifer.

3.2 Ni fyddaf yn gallu rheoli'r sefydliad ar gyllideb wastad heb orfod lleihau maint fy nhîm, a fyddai'n tanseilio'r gwaith unigryw a hanfodol y mae gofyn i mi ei wneud.

3.3 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y cyllidebau adnoddau ac arian sydd eu hangen er mwyn i'r sefydliad barhau i fod yn effeithiol, parhau i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, a sicrhau newid effeithiol.

**Cais am gyllideb ar gyfer 2024/25, a chyllidebau dangosol ar gyfer 2025/26 a 2026/27**

| **Cais am gyllideb adnoddau** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** |
|---|---|---|---|
| Costau cyflogaeth (3% costau byw yn 2024/25, 2% wedi hynny) | 1,397,000 | 1,436,000 | 1,467,000 |
| Costau cyflogaeth eraill | 29,000 | 29,000 | 30,000 |
| Costau llety | 30,000 | 31,000 | 32,000 |
| Costau TG | 82,000 | 84,000 | 86,000 |
| Ffioedd proffesiynol | 68,000 | 70,000 | 71,000 |
| Gorbenion | 31,000 | 32,000 | 33,000 |
| Rhaglen Waith | 80,000 | 80,000 | 80,000 |
| **Cyfanswm** | **1,717,000** | **1,762,000** | **1,799,000** |
| | | | |
| **Cais am gyllideb nad yw'n arian parod** | | | |
| Amorteiddio Cyfalaf TG (wedi'i gytuno eisoes gan Lywodraeth Cymru) | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| 'Arall' – Dibrisiant | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| IFRS16 – Prydles | 16,000 | 16,000 | 16,000 |
| **Cyfanswm** | **31,000** | **31,000** | **31,000** |
| | | | |
| **Cyfanswm y cais am gyllideb** | **1,748,000** | **1,793,000** | **1,830,000** |
| Cyfanswm y gyllideb ddangosol (gan gynnwys cydraddoldeb cyflog) | 1,703,000 | 1,703,000 | 1,692,000 |
| **Diffyg** | **(45,000)** | **(90,000)** | **(138,000)** |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** |
| Cais am gyllideb adnoddau | 1,717,000 | 1,762,000 | 1,799,000 |
| Taliadau rhent (yn unol ag IFRS16) | 16,000 | 16,000 | 16,000 |
| Cyfalaf | I'w gadarnhau | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,733,000** | **1,788,000** | **1,815,000** |

**Cyllideb cyfalaf**

3.4 Ym mis Ebrill 2023, hysbyswyd Llywodraeth Cymru fy mod, oherwydd toriad yn nhrothwyon caffael OJEU, yn adolygu system rheoli achosion fy sefydliad. Mae'r system hon yn chwarae rhan hollbwysig yn fy ngwaith ac yn sail i waith fy nhîm Cyngor a Chymorth.

3.5 Gall yr adolygiad o'r system arwain at gais gan Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf. Byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gaffael ac, o bosibl, i ddatblygu system rheoli achosion newydd. Bydd faint o gyllid cyfalaf sydd ei angen yn dibynnu ar a oes system 'barod' ar gael, neu a oes angen datblygu system bwrpasol sy'n bodloni gofynion fy ngwasanaeth Cyngor a Chymorth.

3.6 Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi'r gyllideb gyfalaf sydd ei hangen.

## 4 Effaith tymor hir ar y gyllideb

**Costau staff**

4.1 Fel y dangosir yn adran 3, costau cyfraith cyflogaeth yw'r maes y mae'r sefydliad yn gwario fwyaf arno. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu fy nghyllideb, yn 2024/25 bydd costau staff yn cynnwys 82% o gyfanswm y gyllideb, ac 84% erbyn 2025/26.

4.2 Os na ddarperir cyllid digonol gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol yn erbyn y gyllideb, byddai'n rhaid i strwythur fy sefydliad newid, a byddai swyddi'n cael eu colli er mwyn lleihau costau'n ddigonol. Pe bai hyn yn digwydd, ni fyddai'r sefydliad yn gallu parhau i gyflawni'r lefel bresennol o waith effeithiol ar gyfer pobl hŷn, a chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol parhaus.

4.3 Er mwyn i'r arbedion angenrheidiol gael eu gwireddu o fis Ebrill 2025 ymlaen, byddai angen ailstrwythuro yn ystod hydref/gaeaf 2024, gyda chyllid ategol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Gan fod fy swydd yn dod i ben ym mis Awst 2024, nid yw'n briodol nac yn deg disgwyl i'r Comisiynydd newydd ailstrwythuro'r tîm yn ystod ei 6 mis cyntaf ar ôl dechrau yn y swydd, a hynny heb gael y cyfle yn gyntaf i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn, datblygu ei gynllun strategol, a nodi'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun hwnnw er mwyn parhau i sicrhau newid effeithiol i bobl hŷn.

4.4 Bydd ailstrwythuro'r sefydliad, ynghyd â cholli swyddi, yn broses hynod o aflonyddgar a llafurus, a fyddai'n ansefydlogi'r sefydliad, yn arwain at ddiswyddo staff ymroddedig ac arbenigol, ac yn achosi pryder ac ansicrwydd i'r holl staff.

4.5 Byddai hyn yn amharu'n ddifrifol ar y gallu i ddarparu gwaith effeithiol i bobl hŷn yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r broses ailstrwythuro'n cymryd misoedd lawer i'w chwblhau.

4.6 Byddai'r gostyngiad yn nifer y staff a gyflogir hefyd yn cael effaith sylweddol ar allu'r sefydliad i ddarparu cyngor a chymorth i bobl hŷn. Byddai'n rhaid lleihau lefel yr ymgysylltu uniongyrchol â phobl hŷn, a byddai'r Comisiynydd ac aelodau'r tîm yn gorfod tynnu'n ôl o lawer o weithgorau a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru, a lleihau eu cyfranogiad mewn ymgynghoriadau. Byddai hyn yn effeithio'n ddifrifol ar allu'r Comisiynydd i sicrhau bod lleisiau a phryderon pobl hŷn yn cael eu clywed.

**Rhaglen waith**

4.8 Mae cyllideb fy rhaglen waith yn fy ngalluogi i gyflawni fy nyletswyddau statudol a'm blaenoriaethau strategol o hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn, atal cam-drin pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

4.9 Os bydd cyllideb sylfaenol y sefydliad ar gyfer 2024/25 a 2025/26 yn parhau i fod yn £1,703,000, ni fydd digon o gyllideb ar ôl ar gyfer y rhaglen waith. Felly, bydd yn rhaid i'r Comisiynydd newydd ailstrwythuro'r sefydliad er mwyn sicrhau bod digon o gyllideb ar gael i barhau i ddarparu ar gyfer pobl hŷn pan fydd eu hanghenion a'u hamgylchiadau'n parhau i fod yn arbennig o ddybryd a heriol.

## 5 Casgliad

5.1 Rwyf yn parhau i ddangos i Lywodraeth Cymru fy mod yn chwilio ac yn canfod ffyrdd o arbed costau, sy'n rhan o'n harferion ariannol. Mae'r rheolaeth ariannol ddarbodus hon wedi sicrhau nad yw'r gyllideb yr wyf yn gofyn amdani ond 10% yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd yn 2016. Mewn cymhariaeth, cynyddodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr y DU 30% dros yr un cyfnod, sy'n dangos bod fy sefydliad yn rheoli ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf yn derbyn ac yn deall y bydd penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn heriol, ond drwy geisio cynnydd rhesymol o 2.6% (£45,000) byddaf yn gallu parhau â'r gwaith hanfodol ac unigryw y mae fy rôl yn gofyn i mi ei gyflawni i gefnogi bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd yn cymryd camau i warchod hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

### Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeople.wales
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

X: @comisiwnphcymru